# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 2

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Trosglwyddo cynlluniau*

### 36 Cais i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

(2) Caiff yr awdurdod lleol ofyn i gorff llywodraethu'r sefydliad ddod yn gyfrifol am gynnal y cynllun.

(3) Os yw'r corff llywodraethu yn methu â chytuno i'r cais o fewn cyfnod rhagnodedig, caiff yr awdurdod lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylai corff llywodraethu'r sefydliad addysg bellach gynnal y cynllun.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 36 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 36 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(d)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/01/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 36 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.